
CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 28 MAWRTH 2019 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 28 MARCH 2019, |

Fe’ch gwysir i fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND ar Dydd Iau, 28 Mawrth 2019 am 4.30 pm i drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.



**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 22 Mawrth 2019

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 10.58 mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mun |
| 2 | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | | |
| 3 | **Cwestiynau Cyhoeddus** *(Tudalennau 9 - 12)*<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.35 pm | 10 mun |
| 4 | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.45 pm | 5 mun |
| 5 | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.50 pm | 5 mun |
| 6 | **Ethol Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer 2019-2020** *(Tudalennau 13 - 14)*<br><br>*Derbyn ac ystyried enwebiadau ar gyfer swyddi Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2019/20.* | 4.55 pm | 5 mun |
| 7 | **Strategaeth Economaidd Drafft** *(Tudalennau 15 - 152)*<br><br>*Ystyried y Strategaeth Economaidd Drafft cyn i'r Cabinet ystyried y ddogfen derfynol.* | 5.00 pm | 30 mun |
| 8 | **Canllaw Cynllunio Atodol** *(Tudalennau 153 - 192)*<br><br>*Cynnig y Cabinet.* | 5.20 pm | 20 mun |
| 9 | **Datganiad Polisi Cyflog 2019 - 2020** *(Tudalennau 193 - 218)*<br><br>*Cynnig y Cabinet.* | 5.40 pm | 15 mun |
| 10 | **Diwygiadau i'r Cyfansoddiad** *(Tudalennau 219 - 248)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 5.55 pm | 10 mun |

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. **£ 10.58** mewn costau argraffu

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **11** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2018**<br>*(Tudalennau 249 - 280)* | 6.05 pm | 20 mun |
| **12** | **Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelod Etholedig**<br>*(Tudalennau 281 - 304)*<br><br>*Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.* | 6.20 pm | 15 mun |
| | **Egwyl** | | |
| **13** | **Datganiadau** *(Tudalennau 305 - 338)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.55 pm | 45 mun |
| **Hysbysiad o Gynnig** | | | |
| **14** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Carter<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Wood<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod lleihau allyriadau carbon o gartrefi yn creu buddion ariannol i'r meddianwyr a buddion amgylcheddol i'r gymdeithas.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>• Targed Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn gwaelodlin 1990.<br>• Mae adeiladau preswyl yn creu 7.5% o allyriadau Cymru.<br>• Mae 23% o gartrefi Cymru mewn tlodi nwy.<br>• Llwyddiant sefydliadau megis Prifysgol Caerdydd i ddangos y gellir adeiladu cartrefi dim carbon ar gost isel.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:-<br><br>1. Ymrwymo i sicrhau bod tai cyngor a adeiladir ar ôl 2022 yn rhai dim carbon gyda chyflenwadau glan o ynni ac effeithlonrwydd ynni uchel wedi'i gynnwys yn y dyluniadau o'r dechrau.<br>2. Datblygu Canllaw Cynllunio Atodol i gynyddu nifer y cartrefi preifat a adeiladir at safonau dim carbon. | 7.40 pm | 30 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **15** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Iona Gordon<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Owen Jones<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi *'Adroddiad Arbennig ar Gynhesu Byd-eang o 1.5°C'* y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, a ddaeth i'r casgliadau canlynol:<br><br>• Cyrhaeddodd cynhesu byd-eang gan fodau dynol tua 1°C yn uwch na lefelau cyn y Chwyldro Diwydiannol yn 2017, gan gynyddu 0.2°C y degawd.<br>• Bydd cynnydd o 1.5°C yn arwain at effeithio negyddol lluosog, gan gynnwys cynnydd yn amlder, dwysedd a/neu swm dynodiad trwm mewn sawl rhanbarth, a bydd y rhan fwyaf (70-90%) o greigresi gwrel dŵr twym (trofannol sy'n bodoli heddiw yn diflannu.<br>• Bydd cynnydd o 2°C yn arwain at lawer mwy o niwed, gan gynnwys risg mwy o brinder dŵr mewn rhai rhanbarthau a digwyddiadau tywydd, sychderau, llifogydd difrifol mwy aml, lefelau'r môr yn codi, cnydau'n methu a thir ac ecosystemau morol yn cael eu difrodi.<br>• Gyda strategaethau cyfredol, mae'r byd ar y trywydd iawn i fynd y tu hwnt i gyfyngiad o 1.5°C Confensiwn Fframwaith y CU ar Gytundeb Newid yn yr Hinsawdd Paris erbyn 2050 ac yn mynd y tu hwnt i 3°C erbyn 2100.<br>• Gallai fod yn bosibl cyfyngu ar gynhesu byd-eang i 1.5°C o hyd gyda chamau gweithredu uchelgeisiol gan awdurdodau cenedlaethol ac is-genedlaethol, y gymdeithas ddinesig y sector preifat, pobl frodorol a chymunedau lleol.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi ymhellach:<br><br>• yr ymrwymiad i symud ystod eang o brojectau ymlaen i ategu'r Strategaeth Leihau Carbon gyfredol, sy'n cynnwys:<br>- cynllun hydro-drydanol Cored Radur;<br>- fferm haul arfaethedig Ffordd Lamby;<br>- y cynllun rhwydwaith cynhesu ardaloedd sy'n gwasanaethu Bae Caerdydd a Chanol y Ddinas;<br>- mentrau arbed ynni, gan gynnwys troi goleuadau stryd i oleuadau LED;<br>- defnydd mwy o gerbydau electrig (e.e. bysus, tacsi a cherbydau'r Cyngor) a gosod mannau gwefru o fewn y ddinas;<br>- yr ymrwymiad i gyflawni rhaniad moddol 50:50 | 8.10 pm | 30 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rhwng ceir a dulliau cynaliadwy o deithio ar gyfer teithiau i'r gwaith erbyn 2026;<br>- adeiladu cartrefi cyngor newydd sy'n effeithlon o ran ynni; a<br>- yr ymrwymiad i weithio gyda'r Pwyllgor Pensiwn i ystyried cael buddsoddiadau'r Cyngor gan gwmnïau tanwydd ffosiledig.<br><br>• y buddsoddiad £13.9m mewn creu ynni cynaliadwy a glan a oedd yn rhan o gyllideb 2019/20 a gytunwyd ar 28 Chwefror 2019.<br><br>• rhan plant a phobl ifanc o Gaerdydd a ledled y byd mewn arddangosiadau i fynnu camau gweithredu byd-eang ar newid yn yr hinsawdd gan lywodraethau cenedlaethol.<br><br>• y gall camau gweithredu mentrus i leihau allyriadau carbon greu buddion economaidd o ran swyddi newydd, arbedion economaidd a chyfleoedd marchnad, a gallant gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae'r Cyngor hwn felly yn penderfynu:<br><br>1. ymuno â chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad IPCC.<br><br>2. cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Cyflawni Carbon Isel newydd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ystod o fesurau i leihau allyriadau carbon o weithrediadau'r Cyngor ei hun, i helpu i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030.<br><br>3. gwneud sylwadau i Lywodraethau Cymru a'r DU, fel sy'n briodol, i roi pwerau, adnoddau a chymorth technegol sydd eu hangen i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i fwrw targed 2030 yn llwyddiannus.<br><br>4. parhau i weithio gyda phartneriaid ledled y ddinas a'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all sicrhau bod carbon yn cael ei leihau a helpu i gyfyngu ar gynhesu byd-eang. | | |
| **16** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r* | 8.40 pm | 60 mun |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Awdurdod Tân.* | | |
| **17** | **Materion Brys** | 9.40 pm | 5 mun |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **18** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgolion yr Awdurdod Lleol** *(Tudalennau 339 - 344)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | 9.40 pm | 5 mun |
| **19** | **Penodi i'r Pwyllgor** *(Tudalennau 345 - 346)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **20** | **Penodi i Gyrff Allanol** *(Tudalennau 347 - 348)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **21** | **Penderfyniad Brys: Ymyrraeth Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr** *(Tudalennau 349 - 350)* | | |
| **22** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |